*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **Dydd Llun 17 Rhagfyr 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Alldro Amcanol 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu amcangyfrif i'r Aelodau o alldro amcanol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn ariannol 2018/19.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2017, fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gymeradwyo cyllideb refeniw o £34.1m. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniad o £646,700 o'r cronfeydd wrth gefn. Ar 30 Tachwedd 2018, y rhagolygon cyfredol yw y bydd angen dyraniad llawn o'r gyllideb, gan gynnwys y cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn. Mae lefel uwch y gweithgarwch dros fisoedd yr haf wedi arwain at orwariant yn y costau ar ddiffoddwyr tân. Mae'r mater yn cael ei drin drwy lai o gostau ariannu cyfalaf a mynd ati'n ofalus i reoli swyddi gwag a gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau. Mae'r rhagolygon presennol yn amodol ar sefyllfa lle mae'r lefelau arferol yn parhau yn ystod misoedd y gaeaf. Mae dadansoddiad manwl ar gael yn Atodiad A.

3 Yn Rhagfyr 2017, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb gyfalaf gwerth £4.9m, a gododd i £5.9m ar gyfer prosiectau a oedd yn weddill ers 2017/18. Rhagwelir mai gwariant cyfalaf y flwyddyn lawn yw £2.7m, i adlewyrchu'r ffaith fod adeg cyflawni nifer o brosiectau wedi newid.

**ARGYMHELLIAD**

4 Gofynnir i'r Aelodau nodi bod yr Awdurdod yn:

(i) rhagweld ar hyn o bryd y bydd yn defnyddio'i holl gyllideb refeniw, sef £34.1m yn 2018/19; ac yn
(ii) rhagweld gwariant cyfalaf o £2.7m yn ystod 2018/19 o gymharu â'r cynllun sef £5.9m.

**CEFNDIR**

5 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r gwariant a'r incwm gwirioneddol hyd at ddiwedd Tachwedd 2018 ac mae'n amcangyfrif y gwariant a'r incwm hyd at Fawrth 2019.

6 Mae grantiau sydd wedi cael eu dyfarnu yn ystod y flwyddyn yn cael eu nodi yn yr adroddiad hwn, ac maent wedi'u heithrio o'r ffigyrau yn Atodiad A.

**GWYBODAETH**

**Amrywiadau i'r Gyllideb**

**Costau Gweithwyr**

7 Cafwyd pwysau sylweddol yn y maes gwariant hwn oherwydd y lefel uwch o weithgarwch yn ymwneud â thanau glaswellt a rhostir yn ystod misoedd yr haf. Rhagwelir y bydd £323k o orwariant yn y flwyddyn gyfan, o gymryd y bydd y gweithgarwch yn aros ar y lefelau arferol am weddill y flwyddyn ariannol.

8 Yn ôl yr amcangyfrif cyfredol, bydd £448k o orwariant yng nghostau diffoddwyr tân oherwydd y gweithgarwch ychwanegol dros yr haf a'r costau pensiwn uwch. Mae'r gorwariant hwn yn cael ei reoli drwy gostau ariannu cyfalaf is a mynd ati'n ofalus i reoli swyddi gwag a chostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau.

9 O ran staff cefnogol, amcangyfrifir tanwariant oherwydd bod nifer o swyddi gwag.

10 Mae disgwyl y bydd cost hyfforddiant yn uwch na'r gyllideb a osodwyd, a hynny oherwydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â hyfforddi staff RDS sydd newydd gael eu recriwtio a rhoi hyfforddiant cymorth cyntaf i staff gweithredol.

**Adeiladau**

11 Rhagwelir £99k o orwariant am y flwyddyn lawn. Mae hyn yn adlewyrchu pwysau ychwanegol o ran costau atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau a chostau ynni. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol drwy ailgodi tâl am adeiladau sy'n cael eu meddiannu ar y cyd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu o fewn yr incwm. Mae'r gorwariant a ragwelir yn y costau ynni yn ymwneud â chynnydd yn y tariffau, ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ostwng y defnydd o ynni ymhob rhan o'r ystâd.

**Trafnidiaeth**

12 Yn gyffredinol, amcangyfrifir fod £31k o orwariant oherwydd costau'n deillio o brisiau tanwydd a'r lefelau gweithgarwch diweddar.

**Cyflenwadau**

13 Rhagwelir y bydd £72k o orwariant yn y gyllideb ar gyfer cyflenwadau, gan adlewyrchu pwysau o ran costau a gweithgareddau dan nifer o benawdau. Yn arbennig, mae pwysau o fewn TGCh oherwydd costau yn gysylltiedig â chynnal rhaglenni a gweinyddion hanfodol ar gyfer yr ochr weithredol.

14 Bydd tanwariant ar y gyllideb gysylltiadau oherwydd nifer o ffactorau, sy'n cynnwys gostyngiad yng nghost rhenti llinellau ffôn a chostau ffonau symudol yn gysylltiedig â newidiadau yn y trefniadau contract a dyfodiad y ffonau VoIP (protocol llais dros y rhyngrwyd).

**Ariannu Cyfalaf**

15 Mae'r costau ar y gyllideb refeniw am ariannu'r rhaglen gyfalaf yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer oherwydd bod derbyniadau cyfalaf (yn bennaf elw gwerthu yr hen Orsaf Dân yn Wrecsam) wedi cael eu defnyddio yn 2017/18.

**INCWM**

16 Rhagwelir y bydd yr incwm £188k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Mae hyn yn bennaf oherwydd incwm secondiad i brosiect Wylfa Newydd ac incwm ychwanegol yn deillio o safleoedd sydd gennym ar y cyd.

**INCWM GRANT**

17 Mae'r Awdurdod yn cael nifer o grantiau, a dyma grynodeb ohonynt:-

| | |
|---|---:|
| Firelink | £415,600 |
| Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol | £156,464 |
| Ymyriadau | £223,300 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol | £233,386 |
| Y Ffenics | £165,000 |
| Fforwm Lleol Cymru Gydnerth | £ 55,000 |

18 Bydd yr incwm grantiau'n cael ei ddefnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn, a hynny yn unol â thelerau ac amodau'r grantiau. Mae gwariant grant yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, ac mae wedi'i eithrio o'r ffigyrau sydd yn atodiad A.

**RHAGLEN GYFALAF**

19 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf gwerth £4.9m, a gododd i £5.9m ar gyfer prosiectau a oedd yn weddill ers 2017/18. Mae Atodiad B yn darparu dadansoddiad o'r cynlluniau, a rhagwelir mai £2.7m yw'r gwariant alldro am y flwyddyn lawn.

20 Mae'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfan yn adlewyrchu'r ffaith fod nifer o brosiectau, gan gynnwys adnewyddu'r fflyd wen, tendrau dŵr, cyfarpar TG, a chit tân, wedi cael eu hailbroffilio i gyfnodau diweddarach.

21 Mae arolwg o gyflwr yr ystâd wrthi'n cael ei gynnal. Bydd yn sail i wariant cyfalaf ar safleoedd yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn cydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod y cymunedau'n cael y budd mwyaf posibl o bob un o'i adeiladau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae arian i'r gwasanaeth yn llesol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb fantoledig, ac mae'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn cael gwybod am unrhyw wyro oddi wrth hynny. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae incwm a gwariant yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddigon o arian i osod cyllideb fantoledig. Os yw'r gofynion ar y gwasanaeth yn uchel dros gyfnod hir o amser, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o arian i barhau i ddarparu gwasanaethau. |